Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru 2022-23

**Fersiwn 1**

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg/This document is available in English

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Manylion cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan Raglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2022 tan ddiwedd mis Mawrth 2023.

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru 2022-23
Dyddiad: Tachwedd 2024
ISBN: 978-1-83766-516-7

## Manylion cyswllt

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

## Datganiad Sicrhau Ansawdd

Mae cofnodion data sgrinio yn cael eu diweddaru'n barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi'i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy'n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith os bydd yn symud cyfeiriad. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod y data yn cael eu diweddaru'n barhaus a gall fod mân addasiadau i'r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon o'r naill flwyddyn i'r llall yn sgil diweddaru'r data. Weithiau rydym yn atal niferoedd sy'n is na phump lle mae'n bosibl bod y data'n sensitif.

## Gwybodaeth am hawlfraint

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

This document is also available in English.

# Cynnwys


Cynnwys ........ 4
Tablau ........ 5
Ffigurau ........ 5
Negeseuon allweddol ........ 6
Cyflwyniad ........ 7
  Cefndir ........ 7
  Cyflawni'r rhaglen ........ 8
  Llwybr sgrinio ........ 9
Penawdau ystadegol ........ 11
Data ........ 12
  Canran a gafodd eu sgrinio ........ 12
  Heb ei delweddu ........ 18
  Dynion sy'n hunanatgyfeirio ........ 20
  Ymlediadau Aortig Abdomenol a gafodd eu canfod ........ 21
  Nifer y rhai a gafodd wyliadwriaeth ar gyfer ymlediadau ........ 23
  Atgyfeirio i'r tîm amlddisgyblaethol ac amseroldeb ymyriad ........ 25
Diffiniadau ........ 27
Tîm cynhyrchu ........ 28
Manylion cyswllt y rhaglen ........ 28

# Tablau

Tabl 1: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl ... 13
Tabl 2: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl mis gwahoddiad ar gyfer Ebrill 2022 – Mawrth 2023. ... 14
Tabl 3: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%) ... 16
Tabl 4: Canran yr aortâu heb eu delweddu yn ôl bwrdd iechyd preswyl ... 19
Tabl 5: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio lle cafodd ymlediad aortig abdomenol (≥3cm) ei ganfod yn ôl bwrdd iechyd preswyl ... 22
Tabl 6: Canran y rhai a gafodd wyliadwriaeth ymlediadau yn ôl bwrdd iechyd preswyl ... 24

# Ffigurau

Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio ymlediadau ... 10
Ffigur 2: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl 15
Ffigur 3: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%) ... 17

# Negeseuon allweddol

- Mae cael y prawf sgrinio ymlediad aortig abdomenol (ymlediad) yn lleihau'r risg o farw o ymlediad. Mae dod o hyd i ymlediad yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i'r dyn gael triniaeth a goroesi.
- Yr aorta yw'r brif bibell waed sy'n cyflenwi gwaed i'r corff. Mae ymlediad yn chwyddo yn yr aorta yn yr abdomen, ac os bydd yn cael ei gadael heb ei chanfod, efallai y bydd yn rhannu neu dorri.
- Mae sgrinio am ymlediad yn cynnwys sgan uwchsain syml i fesur yr aorta abdomenol.
- Mae sgrinio am ymlediad yn brawf am ddim gan y GIG a gynhelir mewn clinigau cymunedol.
- Dewis y dyn yw cymryd rhan mewn sgrinio am ymlediad.

# Cyflwyniad

## Cefndir

Mae tystiolaeth ymchwil wedi dangos y gall rhaglen sgrinio o ansawdd uchel ar gyfer ymlediad leihau marwolaethau oherwydd ymlediad aortig toredig tua 50% mewn dynion 65 – 74 oed[1] . Ym mis Chwefror 2007, cymeradwyodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU gyflwyno sgrinio am ymlediadau i ddynion 65 oed drwy ddefnyddio sganio uwchsain abdomenol ar yr amod bod:

- Gwybodaeth glir am risgiau llawdriniaeth ddewisol yn cael ei rhoi i'r dynion a wahoddwyd, a
- Bod rhwydweithiau fasgwlaidd yn eu lle i drin unigolion a atgyfeiriwyd o sgrinio.

Lansiwyd Rhaglen Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru ym mis Mai 2013 ac erbyn 2025 ei nod yw haneru marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ymlediad aortig abdomenol (ymlediad) yn y boblogaeth gymwys drwy raglen sgrinio systematig ar gyfer dynion 65 oed sy'n byw yng Nghymru.

Ers 1 Mai 2015, gall dynion nad ydynt erioed wedi mynd am sgan sgrinio ymlediadau gan y GIG ac nad ydynt wedi cael cynnig sgrinio ymlediadau oherwydd eu bod wedi cael eu pen-blwydd yn 65 cyn iddo fod ar gael yng Nghymru gysylltu â'r swyddfeydd sgrinio lleol i ofyn am sgan sgrinio ymlediadau.

### Cymhwystra presennol

Bydd dyn sy'n byw yng Nghymru yn cael ei wahodd i gymryd rhan mewn sgrinio ymlediadau pan fydd yn 65 oed.  Gall dynion dros 65 oed 'hunanatgyfeirio' i'r rhaglen ar yr amod nad ydynt wedi cael eu sgrinio o'r blaen.  Nid oes terfyn oedran uwch ar gyfer hyn.

### Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

[1] Ashton HA, Buxton MJ, Day NE, Kim LG, Marteau TM, Scott RAP et al. (2002) Multicentre Aneurysm Screening Study Group. The Multicentre Aneurysm Screening Study (MASS) into the effect of abdominal aortic aneurysm screening on mortality in men: a randomised controlled trial. *Lancet*;360 (9345):1531-9

## Lleoliadau sgrinio

Mae tua 60 o glinigau sgrinio ledled Cymru.  Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys ysbytai cymunedol, practisau meddygon teulu, canolfannau cymunedol, carchardai, cyfleusterau chwaraeon, canolfannau addysg a 2 ganolfan sgrinio, sy'n cael eu gweithredu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.  Yn ystod y pandemig, defnyddiwyd unedau sgrinio symudol ar y cyd â Gofal Canser Tenovus a Gwasanaeth Gwaed Cymru.

## Crynodeb o'r gweithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd

Oherwydd effaith y pandemig ar gapasiti sgrinio, roedd amseroedd aros y tu hwnt i'r pen-blwydd yn 65 oed yn y boblogaeth gymwys yn hirach na'r disgwyl.  Ymrwymodd y rhaglen i sicrhau na fyddai unrhyw ddynion cymwys yn aros y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 66 oed erbyn 31 Mawrth 2023.  I gyflawni hyn, cafodd sgrinwyr ymlediadau ychwanegol eu recriwtio a'u hyfforddi a gweithiodd sgrinwyr oriau hirach i alluogi cynnal mwy o sganiau nag a ddisgwylir mewn unrhyw flwyddyn arferol.

Roedd amseroedd aros wedi gwella yn ôl y disgwyl erbyn diwedd mis Mawrth 2023.  Rhagwelir y bydd angen llai o sganiau yn y blynyddoedd dilynol.

## Edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf

Yn 2023/24, bydd lleoliad sgrinio newydd yn Llanisien, gogledd Caerdydd, ar gael i'w ddefnyddio. Bydd y lleoliad hwn yn cael ei reoli gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn darparu cyfleuster clinig y gellir ei ddefnyddio am oriau hirach ac, os oes angen, 7 diwrnod yr wythnos.

Fel rhan o'r ymgyrch tuag at gynaliadwyedd, bydd y rhaglen yn cyflwyno cerbydau trydan llawn a hybrid yn lle'r fflyd bresennol o geir diesel.


# Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen. Mae'r rhaglen yn cyflogi Pennaeth Rhaglen, Rheolwr Rhaglen, Arweinydd Sicrhau Ansawdd Llawfeddygol Fasgwlaidd, Cynghorydd Delweddu Clinigol, Arweinydd Ansawdd, Addysg a Hyfforddiant, tri hyfforddwr sgiliau clinigol a Chydlynydd Gweinyddu Cymru Gyfan gyda chymorth gan dîm ysgrifenyddol a gweinyddol. Er ei bod yn rhaglen i Gymru gyfan, ceir cydlynu rhanbarthol gan dri Chydlynydd Rhanbarthol a thîm o 19 o sgrinwyr sy'n darparu'r sgrinio yn y gymuned.

# Llwybr sgrinio

- Mae dynion 65 oed sy'n byw yng Nghymru yn cael eu gwahodd am sgan uwchsain untro i wirio a oes ganddynt ymlediad.
- Mae'r prawf yn cynnwys sgan syml o'r aorta abdomenol, gan fesur rhan letaf yr aorta.
- Mae sganio uwchsain yn cael ei gynnal mewn tua 60 o glinigau cymunedol ledled Cymru gan gynnwys ysbytai cymunedol, clinigau iechyd, canolfannau adnoddau sylfaenol a phractisau meddyg teulu. Cynhelir sgrinio hefyd yn CEF Berwyn, CEF Parc, CEF Brynbuga a CEF Prescoed.
- Mae dynion â diamedr aortig abdomenol o lai na 3cm yn cael eu rhyddhau o'r rhaglen.
- Mae dynion ag ymlediad bach neu ganolig yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gwyliadwriaeth ac maent yn cael cynnig:
    - apwyntiad dros y ffôn gyda'r nyrs gwyliadwriaeth ymlediadau i drafod y canlyniad a'i oblygiadau o ran iechyd.
    - anogaeth i drefnu apwyntiad gyda'u meddyg teulu i gael cyngor ar ffordd o fyw ac iechyd, monitro pwysedd gwaed a'r therapi meddygol gorau.
    - sgrinio blynyddol os yw'r ymlediad yn fach (3.0 – 4.4cm).
    - sganio bob tri mis os yw'r ymlediad yn ganolig o ran maint (4.5 – 5.4cm).
- Mae dynion ag ymlediad mawr 5.5cm neu fwy (neu dwf o 1cm neu fwy mewn 12 mis) yn cael eu hatgyfeirio i'r tîm Amlbroffesiynol Rhwydwaith Fasgwlaidd dewisol (y Tîm Amlddisgyblaethol).
- Fel arfer, cynigir ail apwyntiad gyda'r Rhaglen i ddynion ag aorta heb ei delweddu. Os yw'r ail apwyntiad yn aflwyddiannus, caiff y dyn ei atgyfeirio i adran ddelweddu feddygol i fesur ei aorta abdomenol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-ymlediadau-aortig-abdomenol-cymru/




Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio ymlediadau

# Penawdau ystadegol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod amser rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio wedi'i diffinio fel y rhai a wahoddwyd yn y flwyddyn Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 a gafodd sgan erbyn 30 Mehefin 2023.

- Canran genedlaethol y rhai a gafodd eu sgrinio oedd 77.6% yn amrywio o 73.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i 82.1% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Roedd canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn uwch ymhlith y dynion hynny sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (84.4%) o gymharu â'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (67.2%).
- Gostyngodd canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau o 82.8% yn 2021-22 i 77.6% yn 2022-23.
- Cafodd 26,068 o ddynion cymwys eu gwahodd gan y rhaglen. O'r rhain, aeth 20,221 o ddynion i gael eu sgan cyntaf o dan y Rhaglen a chael canlyniad sgan diffiniol.
- O'r dynion a aeth i gael eu sgrinio, canfu'r rhaglen sgrinio ymlediad ymhlith 189 (0.9%).
- Roedd angen i 60 o ddynion a gafodd eu sganio gael atgyfeiriad i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol. Cafodd 83.3% ohonynt eu hatgyfeirio o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r sgan.
- Cafodd 49 o ddynion lawdriniaeth agored neu endofasgwlaidd (d.s. mae hon yn garfan wahanol i'r dynion a gafodd eu sganio a'u hatgyfeirio yn y flwyddyn). Cafodd chwech (12.2%) o'r rhain eu llawdriniaeth wedi'i chwblhau o fewn pedair neu wyth wythnos i dderbyn yr atgyfeiriad, yn dibynnu ar faint yr ymlediad a ganfuwyd.
- Cynhaliwyd 1,079 (88.1%) o sganiau gwyliadwriaeth o fewn y safon (ymlediad canolig ar wyliadwriaeth chwarterol o fewn 11 i 15 wythnos i'w sgan llwyddiannus blaenorol, ymlediad bach ar wyliadwriaeth flynyddol o fewn 50 i 56 wythnos i'w sgan llwyddiannus blaenorol).
- Sgriniwyd 242 o ddynion a wnaeth hunanatgyfeirio, gan ganfod 12 o ymlediadau (5.0%).

# Data

## Canran a gafodd eu sgrinio

### Diffiniad a safon

Ar gyfer cyfrifiadau derbyn, dynion cymwys oedd y rhai sy'n byw yng Nghymru a gafodd eu gwahodd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 ac a gafodd sgan erbyn 30 Mehefin 2023. Mae dynion a gofrestrodd â llaw (fel hunanatgyfeiriadau) wedi'u heithrio, fel y mae dynion y daeth eu cyfnod yn y rhaglen i ben yn ystod y cyfnod amser oherwydd eu bod allan o'r garfan.

Y safon ar gyfer canran y rhai sy'n cael eu sgrinio yw bod 80% o ddynion a wahoddir yn mynd i sgrinio ymlediad ac yn cael eu profi.

### Canlyniad ar gyfer 2022-23

Canran y rhai a gafodd eu sgrinio oedd 77.6%.

### Tuedd tair blynedd

Y ganran a gafodd eu sgrinio oedd 77.6% yn 2022-23, 82.8% yn 2021-22, ac 84.6% yn 2020-21.

### Sylw

Ar lefel Cymru gyfan, canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar gyfer 2022-23 oedd 77.6%, sef gostyngiad o gymharu ag 82.8% yn 2021-22.
Ar draws y byrddau iechyd, roedd canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn amrywio o 73.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i 82.1% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ac fel arfer roedd yn cynyddu gyda chwintel amddifadedd cynyddol.

## Ffigurau a thablau


Tabl 1: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| Bwrdd Iechyd | Gwahoddwyd | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 4,633 | 3,520 | 76.0 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 5,421 | 4,312 | 79.5 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 3,331 | 2,445 | 73.4 |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 3,844 | 2,936 | 76.4 |
| Prifysgol Hywel Dda | 4,103 | 3,285 | 80.1 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1,280 | 1,051 | 82.1 |
| Prifysgol Bae Abertawe | 3,452 | 2,668 | 77.3 |
| Anhysbys | 4 | 4 | 100.0 |
| Cymru Gyfan | 26,068 | 20,221 | 77.6 |

Canran y rhai a gafodd eu sgrinio yw'r rhai sy'n gymwys ac a gafodd eu sgrinio rhwng mis Ebrill 2022 – Mawrth 2023 a brofwyd erbyn 30 Mehefin 2023. Mae 'anhysbys' yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i fwrdd iechyd, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan.

Tabl 2: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl mis gwahoddiad ar gyfer Ebrill 2022 – Mawrth 2023.

| Blwyddyn | Mis | Gwahoddwyd | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
|---|---|---|---|---|
| 2022 | Ebrill | 1,838 | 1,445 | 78.6 |
| 2022 | Mai | 1,408 | 1,079 | 76.6 |
| 2022 | Mehefin | 2,115 | 1,652 | 78.1 |
| 2022 | Gorffennaf | 2,321 | 1,799 | 77.5 |
| 2022 | Awst | 2,266 | 1,791 | 79.0 |
| 2022 | Medi | 2,492 | 1,928 | 77.4 |
| 2022 | Hydref | 2,075 | 1,604 | 77.3 |
| 2022 | Tachwedd | 2,234 | 1,742 | 78.0 |
| 2022 | Rhagfyr | 1,694 | 1,320 | 77.9 |
| 2023 | Ionawr | 2,599 | 2,042 | 78.6 |
| 2023 | Chwefror | 2,554 | 1,971 | 77.2 |
| 2023 | Mawrth | 2,472 | 1,848 | 74.8 |
| Cyfanswm | | 26,068 | 20,221 | 77.6 |





Ffigur 2: Nifer y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl

PABU – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, PBC – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, PCF – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, PCT – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, PHDd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, AP – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PBA – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Tabl 3: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)

| Bwrdd Iechyd | Canran a gafodd eu sgrinio % | | | | | Cyfanswm Canran y rhai a gafodd eu sgrinio % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | C1 - amddifadedd mwyaf | C2 | C3 | C4 | C5 - amddifadedd lleiaf | |
| Prifysgol Aneurin Bevan | 69.4 | 73.7 | 75.1 | 78.2 | 86.0 | 76.0 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 69.0 | 75.4 | 77.0 | 82.2 | 86.1 | 79.5 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 58.2 | 69.7 | 68.8 | 77.4 | 82.2 | 73.4 |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 69.4 | 75.4 | 76.1 | 79.3 | 86.2 | 76.4 |
| Prifysgol Hywel Dda | 65.4 | 78.1 | 79.1 | 84.2 | 85.5 | 80.1 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 71.9 | 78.8 | 81.1 | 84.1 | 83.1 | 82.1 |
| Prifysgol Bae Abertawe | 68.6 | 76.5 | 77.1 | 83.3 | 82.8 | 77.3 |
| Anhysbys | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 100.0 |
| **Cymru Gyfan** | 67.2 | 75.3 | 76.9 | 81.7 | 84.4 | 77.6 |

Mae 'anhysbys' yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i fwrdd iechyd, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan.




Ffigur 3: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio am ymlediadau aortig abdomenol yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)

ABU – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, BCU – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, CVU – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, CTU – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, HDU – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, AP – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PBA – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. D.s. mae cwintel 5 ym Mhowys yn cynnwys niferoedd bach.

# Heb ei delweddu

## Diffiniad a safon

Cyfeirir at apwyntiadau wedi'u cwblhau lle na welwyd yr aorta abdomenol fel rhai 'heb eu delweddu'.

Y safon yw bod ≤3% o apwyntiadau a ganiatawyd yn arwain at aorta heb ei delweddu.

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Canran yr aortâu heb eu delweddu oedd 0.9%.

## Tuedd tair blynedd

Roedd y ganran heb eu delweddu yn 0.9% yn 2022-23, 1.1% yn 2021-22 ac 1.3% yn 2020-21.

## Sylw

Ar lefel Cymru gyfan, mae canran yr aortâu heb eu delweddu wedi gostwng o 1.3% yn 2020-21 i 0.9% yn 2022-23. Ar draws byrddau iechyd, roedd canran yr aortâu heb eu delweddu yn amrywio o 0.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 1.3% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 4: Canran yr aortâu heb eu delweddu yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| Bwrdd Iechyd | Sganiau | Heb ei delweddu | Heb ei delweddu (%) |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 4,022 | 47 | 1.2 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 4,826 | 50 | 1.0 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 2,772 | 27 | 1.0 |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 3,097 | 40 | 1.3 |
| Prifysgol Hywel Dda | 3,572 | 18 | 0.5 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1,158 | 13 | 1.1 |
| Prifysgol Bae Abertawe | 2,983 | 12 | 0.4 |
| Anhysbys | 4 | 0 | 0.0 |
| **Cymru Gyfan** | **22,434** | **207** | 0.9 |

# Dynion sy'n hunanatgyfeirio

## Diffiniad a safon

Ers 1 Mai 2015, gall dynion dros 65 oed nad ydynt wedi cael sgan sgrinio uwchsain ar gyfer ymlediadau hunanatgyfeirio drwy gysylltu â'r rhaglen sgrinio i ofyn am apwyntiad. Mae'r canlyniadau isod yn cynnwys dynion nad ydynt wedi'u gwahodd gan y rhaglen yn flaenorol yn unig.

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Sgriniwyd 242 o ddynion a wnaeth hunanatgyfeirio gan ganfod 12 (5.0%) o ymlediadau.

## Tuedd tair blynedd

Cafodd 242 o ddynion a wnaeth hunanatgyfeirio eu sganio (canfuwyd 12 (5.0%) o ymlediadau) yn 2022-23, 197 (canfuwyd 4 (2.0%) ymlediad) yn 2021-22, a 99 (canfuwyd 6 (6.1%) ymlediad) yn 2020-21.

## Sylw

Rhagwelir y bydd nifer y dynion sy'n hunanatgyfeirio ar gyfer sgrinio am ymlediadau yn gostwng wrth i'r rhaglen aeddfedu.

# Ymlediadau Aortig Abdomenol a gafodd eu canfod

## Diffiniad a safon

Mae dynion ag ymlediad (≥3cm) a gafodd ei ganfod dim ond wedi'u cyfrif ar y sgan diffiniol cyntaf, nid sganiau gwyliadwriaeth. Nid yw achosion lle nad yw'r aorta wedi'i delweddu yn cael eu cyfrif fel canlyniad sgan diffiniol.

Y safon yw, o'r rhai sy'n cael eu sgrinio, y bydd gan 1% ymlediad (≥3cm).

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Canfuwyd 189 o ymlediadau (cyfradd ganfod 0.9%).

## Tuedd tair blynedd

Canfuwyd 89 o ymlediadau yn 2022-23 (cyfradd ganfod 0.9%), canfuwyd 134 o ymlediadau yn 2021-22 (cyfradd ganfod 0.9%), a chanfuwyd 44 o ymlediadau yn 2020-21 (cyfradd ganfod 1.1%).

## Ffigurau a thablau

Tabl 5: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio lle cafodd ymlediad aortig abdomenol (≥3cm) ei ganfod yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| Bwrdd Iechyd | Aethpwyd | Cyfanswm yr Ymlediadau | Cyfradd Ganfod (%) |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 3,697 | 36 | 1.0 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 4,384 | 42 | 1.0 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 2,549 | 14 | 0.5 |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 2,880 | 27 | 0.9 |
| Prifysgol Hywel Dda | 3,337 | 33 | 1.0 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1,070 | 8 | 0.7 |
| Prifysgol Bae Abertawe | 2,796 | 29 | 1.0 |
| Anhysbys | 4 | 0 | 0.0 |
| **Cymru Gyfan** | **20,717** | **189** | 0.9 |

Mae anhysbys yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i Fwrdd Iechyd. Fodd bynnag maent wedi'u cynnwys yn y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan.

# Nifer y rhai a gafodd wyliadwriaeth ar gyfer ymlediadau

## Diffiniad a safon

Canran y dynion a aeth i'w hapwyntiad sgan gwyliadwriaeth. Mae canran y rhai a gafodd wyliadwriaeth yn cynnwys dynion ag ymlediad canolig (≥4.5cm a <5.5cm) a ganfuwyd, a wahoddwyd am wyliadwriaeth chwarterol, a dynion ag ymlediad bach (≥3cm a <4.5cm) a ganfuwyd, a wahoddwyd am wyliadwriaeth flynyddol.

Y safon ar gyfer ymlediadau canolig yw bod o leiaf 90% o gyfranogwyr yn mynd i apwyntiad gwyliadwriaeth chwarterol o fewn 11 i 15 wythnos ar ôl sgan llwyddiannus blaenorol. Y safon ar gyfer ymlediadau bach yw bod o leiaf 90% o gyfranogwyr yn mynd i apwyntiad gwyliadwriaeth blynyddol o fewn 50 i 56 wythnos ar ôl sgan llwyddiannus blaenorol.

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Canran y rhai a gafodd wyliadwriaeth oedd 88.1%.

## Tuedd tair blynedd

Canran y rhai a gafodd wyliadwriaeth oedd 88.1% yn 2022-23, 90.0% yn 2021-22, a 47.0% yn 2020-21.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 6: Canran y rhai a gafodd wyliadwriaeth ymlediadau yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| Bwrdd Iechyd | Gwahoddwyd | Sgriniwyd | Canran y rhai a fanteisiodd ar imiwneiddio (%) |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Aneurin Bevan | 224 | 199 | 88.8 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 310 | 281 | 90.6 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 159 | 145 | 91.2 |
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 153 | 138 | 90.2 |
| Prifysgol Hywel Dda | 174 | 142 | 81.6 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 59 | 47 | 79.7 |
| Prifysgol Bae Abertawe | 146 | 127 | 87.0 |
| Anhysbys | 0 | 0 | 0.0 |
| Cymru Gyfan | 1,225 | 1,079 | 88.1 |

# Atgyfeirio i'r tîm amlddisgyblaethol ac amseroldeb ymyriad

## Diffiniad a safon

Atgyfeirio i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol yw'r bwlch rhwng cael sgan a'r atgyfeiriad yn cael ei anfon i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol.

Y safon yw atgyfeirio o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Amseroldeb ymyriad yw'r bwlch rhwng yr atgyfeiriad yn cael ei dderbyn gan y tîm amlddisgyblaethol ar ymlediad a ganfuwyd drwy sgrinio y bernir eu bod yn addas ar gyfer ymyriad hyd at adeg yr ymyriad llawfeddygol drwy gyweirio agored neu EVAR.

Y safon yw y dylai llawdriniaeth gael ei chwblhau o fewn pedair wythnos i'r atgyfeiriad ar gyfer ymlediadau mawr iawn (7cm a mwy) ac o fewn wyth wythnos i'r atgyfeiriad ar gyfer ymlediadau mawr (5.5cm i 6.9cm).

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Digwyddodd 83.3% (50) o atgyfeiriadau i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

Cafodd 12.2% (6) a oedd yn addas ar gyfer cyweirio agored neu EVAR eu llawdriniaeth o fewn 4/8 wythnos.

## Tuedd tair blynedd

Digwyddodd 83.3% (50) o atgyfeiriadau i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol o fewn 2 ddiwrnod gwaith yn 2022-23, 90.0% (54) yn 2021-22, a 90.9% yn 2020-21.

Cafodd 12.2% (6) a oedd yn addas ar gyfer cyweirio agored neu EVAR eu llawdriniaeth o fewn 4/8 wythnos, 23.2% (13) yn 2021-22, a 5.4% (2) yn 2020-21.

## Sylw

Yn ystod 2022-23, cafodd 60 o ddynion eu sganio ac roedd angen eu hatgyfeirio i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol, gydag 83.3% yn cael eu hatgyfeirio o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r sgan. Nid yw hyn yn cynnwys atgyfeiriadau i wasanaethau fasgwlaidd ar alwad (h.y. y rhai ag ymlediad mawr iawn wedi'i ganfod).

Cafodd 49 o ddynion lawdriniaeth agored neu endofasgwlaidd. Mae hon yn garfan wahanol i'r dynion a gafodd eu sganio a'u hatgyfeirio yn y flwyddyn. Cafodd 6 (12.2%) o'r rhain eu llawdriniaeth wedi'i chwblhau o fewn pedair neu wyth wythnos i'r atgyfeiriad, yn dibynnu ar faint yr ymlediad a ganfuwyd. Mae cydymffurfiaeth â'r safon amseroldeb hon wedi'i thrafod yn y cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Rhaglen a Chydlynwyr Tîm Amlddisgyblaethol y Rhwydwaith Fasgwlaidd Dewisol. Mae cydlynwyr y Tîm Amlddisgyblaethol yn cyflwyno adroddiad eithriad ar gyfer pob dyn sy'n torri'r safon amseroldeb atgyweiriad a/neu'n cael yr atgyweiriad mewn ysbyty lloeren yn hytrach na'r safle canoli y cytunwyd arno.

Mae gostyngiad o ran cydymffurfio â'r safon hon o gymharu â'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol blaenorol. Yn 2021-22, cafodd 13 o ddynion (23.2%) eu llawdriniaeth o fewn y safon amseroldeb. Mae sawl ffactor yn gyfrifol am yr oedi o ran triniaeth yn ystod y ddwy flynedd gan gynnwys:

- Dynion â chydafiacheddau eraill
- Lleihad o ran capasiti theatr
- Oedi mewn profion diagnostig cyn llawdriniaeth
- Amrywiad yn y cynnydd o ran datblygu'r rhwydweithiau fasgwlaidd dewisol rhanbarthol

**Pandemig Covid-19**; yn ystod ton gyntaf y pandemig, argymhellodd Cymdeithas Fasgwlaidd Prydain Fawr ac Iwerddon y dylid cynnal cyweirio ymlediadau dewisol dim ond os oedd ymlediad yn fwy na 7cm. Effeithiodd hyn ar amseroldeb triniaeth gyweirio ymlediadau ar gyfer dynion a gafodd eu hatgyfeirio yn ystod misoedd olaf 2022-23.

# Diffiniadau

## Cymwys

Ar gyfer cyfrifo canran y rhai a gafodd eu sgrinio, dynion cymwys oedd y rhai a oedd yn byw yng Nghymru a wahoddwyd yn y cyfnod amser. Mae dynion a gofrestrwyd â llaw (fel hunanatgyfeiriadau) wedi'u heithrio. Mae dynion a wahoddwyd a gafodd eu heithrio o'r rhaglen yn y cyfnod amser yn sgil y ffaith eu bod allan o'r garfan wedi'u dileu.

## Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio

Cafodd dynion eu cyfrif fel rhai a ymatebodd i'w gwahoddiad os cawsant eu gwahodd yn ystod y cyfnod amser Ebrill – Mawrth ac aethant i'w hapwyntiad erbyn 30 Mehefin 2023.

## Amddifadedd

Cafodd cwintelau amddifadedd eu pennu drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014, a'u mesur ar lefel ardal cynnyrch ehangach haen is. Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u graddio i gwintelau Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel o fewn pob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

## Bwrdd Iechyd

Dyma'r bwrdd iechyd preswyl.

## Canlyniad

Mae canlyniad sgan diffiniol yn eithrio'r rhai a gafodd ganlyniad terfynol lle nad oedd yn bosibl delweddu'r aorta abdomenol.

# Tîm cynhyrchu

Cyflogir y tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

| | |
|---|---|
| Jeremy Surcombe | Pennaeth Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Richard Wakely | Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Guy Stevens | Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Gareth Denton | Rheolwr Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru |

# Manylion cyswllt y rhaglen

E-bost: aaa@wales.nhs.uk

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales